

## **CYFARFOD A GYNHALIWYD O BELL DRWY GYFRWNG FIDEO**

### **1. Presennol**

Nia Povey, Llio Griffiths, Glyn Griffiths, Elin Jones, Dion Roberts

Clerc: Huw Rowlands

Cadeirio: Dafydd Watts

Ymddiheuriadau: Rhydwen Roberts, Richard Jones

### **2. Datgan Diddordeb**

Dim

### **3. Trefniadau Cynnal Cyfarfodydd o Bell**

Cytunwyd i adolygu trefniadau cyfarfod o bell a'r meddalwedd a ddefnyddir. Defnyddiwyd Microsoft Teams ar gyfer y cyfarfod hwn, ond mae yna anfantais am na fedrir gweld mwy na 4 o bobl ar y sgrin ar yr un pryd.

Rhaid sicrhau hefyd fod pob aelod yn medru defnyddio'r feddalwedd a ddefnyddir.

Gan yr argymhellir na ddylid defnyddio Zoom, y dewis arall ydy Skype.

### **4. Cadarnahu Cofnodion Cyfarfod 2 Mawrth 2020**

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod 2 Mawrth 2020 gyda'r newidiadau canlynol:

- ychwanegu fod Dylan Edwards i symud coeden o'r fynwent.
- ychwanegu bod cytundeb wedi bod i weithredu ar yr asesiad risg ac asesu yn benodol cyflwr y feinciau a'r fynwent a chael tystiolaeth ffotograffig ohonynt.
- ychwanegu bod angen cyfarfod efo HSBC yn lleol er mwyn sicrhau fod y mandad banc wedi ei ddiweddarau ac yn weithredol.

- ychwanegu fod trafodaeth wedi bod ar ddenfyddio Dropbox fel fynhonnell i storio dogfennau y gall holl aelodau'r cyngor eu gweld a'u diweddarau

## **5. Materion yn Codi o'r Cofnodion**

### **5.1 Dogfennau Polisi Un Llais Cymru**

Cytunwyd fod angen cytuno ac addasu dogfennaeth a pholisiau Un Llais Cymru ac y dylid gwneud hynny gam wrth gam yn ystod y flwyddyn 2020/21.

Mae'r Cyngorydd Llio Griffiths i ddanfôn ymlaen copiau o'r dogfennau yma at y ddau aelod newydd, Dion Roberts ac Elin Jones.

### **5.2 13 Garreg Frech**

Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at Gyngor Gwynedd am ddiweddariad ar y gorchymyn arwystl oedd yn mynd drwy brosesau'r llys ddechrau Ebrill, ac i holi am y cwrs eiddo gwag yr oedd staff Cyngor Gwynedd am fynychu ddechrau Ebrill.

Mae cyflwr yr eiddo yn parhau i ddirywio a risg i goeden gwympto. Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at Adra gam mai nhw sydd berchen yr eiddo drws nesaf.

### **5.3 Y Ganolfan**

Cafodd y cyfarfod oedd wedi ei drefnu gyda chynrychiolwyr Un Llais Cymru a Mantell Gwynedd ei ganslo oherwydd COVID-19. Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu atynt ac at swyddog adfywio Cyngor Gwynedd er mwyn gweld a fyddai cyfarfod o bell yn bosibl.

Mae'r Clerc wedi cael tri pris i drydanydd wneud asesiad o gyflwr cyflenwad trydan Y Ganolfan. Gofynnwyd i'r Clerc fwrw ymlaen i gael trydanydd i wneud y gwaith a mynd am y pris rhataf.

### **5.4 Mynwent Tan Lan**

Mae'r Clerc wedi danfôn cynlluniau datblygu'r fynwent ymlaen at Aled Lloyd ym Mharc Cenedlaethol Eryri ar gyfer ystyriaeth bellach.

Gofynnwyd i'r Clerc holi adran gynllunio'r Parc yn anffurfiol am eu barn ar gael caniatad i leoli cysgodfan fws dros y ffordd i'r Efail yn Llanfrothen. Maent wedi awgrymu'n anffurfiol nad oedd hi'n debygol y byddai gwrthwynebiad mewn egwyddor.

Cytunwyd y dylid trafod eto y ffioedd claddu ac i roi'r mater hwnnw ar agenda y cyfarfod nesaf, ac y byddai'r Cynghorwyr Glyn Griffiths a'r Cynghorydd Richard Jones yn asesu faint o lefydd claddu sydd ar ôl.

Mae angen atgoffa Dylan Edwards i wagio biniau'r fynwent yn ôl yr angen.

Cytunwyd i atgoffa Dylan Edwards i dorri'r gwair yn ôl y galw, sy'n golygu 2 doriad ychwanegol y flwyddyn os yw'r tywydd yn cynyddu twf y gwair, fel bod hyd at 7 toriad yn cael ei wneud yn flynyddol. Dylai toriad gael ei wneud unwaith y mis yn ystod yr haf. Mae angen torri'r ochrau ddwywaith y flwyddyn hefyd.

### **5.5 Goryrru Llanfrothen**

Bu'n rhaid gohirio cyfarfod efo cynrychiolydd o Gyngor Gwynedd oherwydd dyfodiad COVID-19. Ystyriwyd na fyddai'n bosibl cael cyfarfod am y tro gan nad oedd cyfarfod o bell yn opsiwn posibl. Gobeithir y bydd hi'n bosibl trefnu cyfarfod eto wedi i gyfyngiadau'r COVID-19 ddod i ben.

### **5.6 Cyfethol Aelod**

Croesawyd Dion Roberta ac Elin Jones i'r cyfarfod gan gydnabod nad oedd cyfarfod o bell fel hwn y ffordd mwyaf delfrydol i'w cyflwyno i waith y cyngor.

### **5.7 Asesiadau Risg**

Diweddarwyd yr asesiad risg fis Gorffennaf 2019. Mae angen ystyried a diweddarau'r asesiad risg yn flynyddol. Cytunwyd y byddai'n syniad da i fynd trwy'r risgiau presennol a chynnal arolwg risg o'r asedau ac yn arbennig y fynwent a'r feinciau cyn trafod adolygu a diweddarau'r asesiad risg ar gyfer 2020/21.

### **5.8 B4410**

Ysgrifennodd y Clerc at Gyngor Gwynedd yn gofyn iddynt adolygu sefyllfa'r goeden all ddisgyn ar y B4410. Nid ydynt wedi ymateb hyd yn hyn.

Y Clerc i ysgrifennu atynt eto i ofyn iddynt ymweld â'r goeden i'w hasesu.

## **6. Cofnod Buddiannau / Datgan Diddordeb / Cod Ymddygiad i aelodau newydd a phawb arall ac ail fabwysiadu a gwneud rhain yn flynyddol**

Danfonodd y Clerc ffurflen cofnodi buddiannau at y ddau aelod newydd ac mae angen iddynt hefyd gydnabod derbyn eu swyddi a chytuno i'r Cod Ymddygiad.

Mae angen i'r aelodau presennol hefyd ddiweddarau eu cofnod buddiannau.

## **7. Hyfforddiant Un Llais Cymru**

Cytunodd y Cynghorydd Llio Griffiths i holi Un Llais Cymru a fyddai'n bosibl trefnu cyfarfod hyfforddi o bell am y tro

## **8. Cyfarfod Blynyddol y Cyngor**

Derbyniwyd canllawiau Un Llais Cymru, sef i beidio â chynnal cyfarfod blynyddol ym mis Mai fel sy'n arferol, gan na fedr aelodau'r cyhoedd fynychu am y tro ond i ail ystyried y sefyllfa wrth i'r misoedd fynd heibio

## **9. Covid-19 Llanfrothen**

Mae yna sawl grŵp lleol yn darparu cymorth oherwydd COVID-19. Mae Siop Llanfrothen hefyd yn darparu bwyd a nwyddau i'w casglu.

Cytunwyd y dylid rhoi nodyn ar y wefan yn argymhell pobl i beidio ag ymweld â'r ardal am y tro.

Deallwyd fod y Cynghorydd Gareth Thomas wedi bod yn cynnal trafodaethau er mwyn sicrhau fod offer PPE ar gael yn lleol.

Cytunwyd y gallesid defnyddio peth o gyllideb y cyngor cymuned ar gyfer anghenion lleol os oedd angen.

Soniodd y Cynghorydd Llio Griffiths am wefan Llinos Griffin sydd yn hybu busnesau lleol, ac mi ddanfonith linc i'r wefan at bawb.

## **10. Cynllun parhad busnes y Cyngor**

Cytunodd y Cynghorydd Llio Griffiths i holi Un Llais Cymru am addasrwydd defnyddio Sharepoint er mwyn cadw dogfennau fel bo mynediad ar gael iddynt i holl aelodau'r cyngor.

### **10.1 Cyfrif e-bost y Cyngor – mynediad i e-byst**

Mae angen sicrhau fod gan y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd fynediad i gyfrif e-bost y cyngor, e.e. pan fo'r Clerc ffwrdd ar wyliau.

## **11. Materion Ariannol**

### **11.1 Biliau**

BHIB yswiriant blynyddol 2020/21 £872.41

Scottish Power trydan Y Ganolfan £81.22

Michael Kerr £380.00

Derbyniwyd taliad cyntaf Praesept 2020/21 o £4,150.00 i'r cyfrif banc.

Cytunwyd i dalu'r uchod,

### **11.2 Trefniadau llofnodi sieciau a thalu**

Y trefniadau ar hyn o bryd ar gyfer llofnodi sieciau a gwneud taliadau oherwydd y methu i gyfarfod yw i'r Clerc ddanfon sieciau at y Cadeirydd Dafydd Watts, a'i fod yntai yn danfon y sieciau ymlaen at y Cynghorydd Glyn Griffiths i'w llofnodi, cyn eu dychwelyd i'r Clerc i wneud y taliad. Bydd y sieciau wedi eu cablhau efo enw'r talai a'r swm cy neu danfon allan.

### **11.3 Mandad cyfrif banc**

Mae angen trefnu cyfarfod efo HSBC yn lleol er mwyn trafod a diweddarau'r manda banc. Mae'n annhebygol y bydd hyn yn bosibl yn y tymor byr.

## **12. Ffurflenni Blynyddol 2017/2018/19 a 2019/20**

Mae Ffurflen Flynyddol 2017/18 wedi ei dychwelyd gan yr archwiliwr allanol BDO.

Parheir i ddisgwyl dychweliad Ffurflen Flynyddol 2018/19. Mae'r gwaith archwilio wedi ei orffen, ond ni all y staff fynychu'r swyddfa ar hyn o bryd i ddanfon y ffurflen yn y post.

## **13. Rhaglen o beth mae'r Cyngor angen ei drafod a gwneud pryd yn ystod y flwyddyn**

Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu rhaglen erbyn y cyfarfod nesaf, o'r hyn y mae angen i'r cyngor ei wneud yn ystod pob blwyddyn ariannol a phryd, e.e. cyfarfod blynyddol, cymeradwyo asesiad risg, rhoddion ariannol, diweddarau cofnod buddianau, cytuno ar y gyllideb a'r Praesept

## **Dyddiad y cyfarfod nesaf – cyfarfod o bell**

1 Mehefin 2020 7:30 yr hwyr